Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Rheoleiddio rhyddhau adar hela (ffesantod cyffredin a phetris coesgoch) yng Nghymru

# Cyngor CNC i Lywodraeth Cymru ar ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Ran 1 o Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yng Nghymru

**Hydref 2023**

# Cynnwys

**Diben yr adroddiad hwn** ....................................................................................... 2
**Crynodeb** ............................................................................................................. 3
**Cefndir y cyngor hwn** ............................................................................................ 3
**Canfyddiadau ein hadolygiad o dystiolaeth a'n dull gweithredu arfaethedig** ............. 5
**Themâu a nodwyd o ymatebion i'n hymgynghoriad** ................................................ 6
Thema 1: Pryderon am fwriadau gwleidyddol ..................................................... 7
Thema 2: Safbwyntiau am y dystiolaeth ............................................................... 8
Thema 3: Safbwyntiau am fanteision saethu ..................................................... 12
Thema 4: Safbwyntiau am y system bresennol ................................................. 13
Thema 5: Ystyriaethau amgylcheddol ............................................................... 15
Thema 6: Pryderon am effaith y newidiadau arfaethedig .................................. 16
Thema 7: Safbwyntiau am fanteision rheoleiddio .............................................. 18
Thema 8: Awgrymiadau penodol ...................................................................... 19
Themâu sy'n codi o gwestiynau am y Gymraeg ................................................ 21
**Casgliad a chyngor i Lywodraeth Cymru** ............................................................. 22
**Atodiad 1 – Cwestiynau ymgynghori** ..................................................................... 24
**Atodiad 2 – Dadansoddiad cadarnhau annibynnol** ................................................. 26
Cefndir ............................................................................................................... 26
Dadansoddiad cadarnhau ar gyfer Cwestiwn 4 .................................................. 26
Dadansoddiad cadarnhau ar gyfer y cwestiynau Cymraeg ................................. 29

# Diben yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i Lywodraeth Cymru ynghylch y cynnig i ychwanegu ffesantod cyffredin *Phasianus colchicus* a phetris coesgoch *Alectoris rufa* i Ran 1 o Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "y Ddeddf") fel y mae'n gymwys i Gymru (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Atodlen 9").

Wrth ddarparu'r cyngor hwn, rydym wedi ystyried a yw'r safbwyntiau a'r wybodaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'n hymgynghoriad cyhoeddus diweddar wedi newid ein barn, fel y nodir yn yr ymgynghoriad hwnnw, y dylid cymryd y camau angenrheidiol i ryddhau ffesantod cyffredin a phetris coesgoch dan gynllun trwyddedu yng Nghymru.

# Crynodeb

Ym mis Mawrth 2023, gwnaethom gynnig y dylid ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9, fel y byddai angen trwydded i'w rhyddhau'n fwriadol i'r gwyllt. Gwnaethom hefyd gynnig cyflwyno trwydded gyffredinol ar gyfer rhyddhau ar lefelau cynaliadwy i ffwrdd o safleoedd gwarchodedig a all fod yn sensitif i effeithiau adar hela a ryddhawyd.

Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, cynhaliasom ymarfer ymgynghori ar y cyd ar y cynigion hyn rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2023, ac rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw.

Ein cyngor o hyd yw y dylid ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9 o'r Ddeddf ac wedi hynny y dylid rheoli unrhyw achosion o ryddhau'r ddwy rywogaeth hyn drwy fframwaith trwyddedu cymesur sy'n seiliedig ar risg.

Os bydd angen, bydd manylion unrhyw gyfundrefn drwyddedu angenrheidiol yn cael eu datblygu ymhellach yn y misoedd nesaf, gyda'r bwriad y byddant yn dod i rym mewn pryd ar gyfer rhyddhau at ddibenion tymor saethu 2025/6.

# Cefndir y cyngor hwn

Yn 2020, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd ei bwriad i gyflwyno dull priodol o reoleiddio rhyddhau adar hela yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i ailadrodd ers hynny gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, y mae'r gwaith bellach o dan ei phortffolio hi.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn i Lywodraeth Cymru ac CNC ystyried opsiynau ar gyfer rheoleiddio rhyddhau adar hela yng Nghymru, gan gynnwys datblygu unrhyw gyfundrefn drwyddedu ofynnol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni roi gwybod p'un a oes angen newid, a datblygu cynigion ar gyfer dull trwyddedu cymesur, os oes angen. Cawsom ein harwain yn benodol i ystyried a yw darpariaethau presennol adrannau 14 ac 16 o'r Ddeddf yn darparu fframwaith cyfreithiol addas pe bai angen dull gweithredu newydd.

Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, gofynnwyd inni ystyried y canlynol:

- a oes problem yng Nghymru ac, os felly, beth yw'r raddfa?
- pa mor effeithiol yw dulliau gwirfoddol presennol
- pa gapasiti sydd gennym i reoli unrhyw ddull newydd

Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu a ddylid ychwanegu rhywogaethau ychwanegol at Atodlen 9 a gofynnwyd inni roi cyngor ar y cwestiwn hwnnw.

Yn 2022, gwnaethom wahodd rhanddeiliaid a'r cyhoedd i gyflwyno tystiolaeth sy'n ymwneud â'r effeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol a maint a lleoliad rhyddhau adar hela yng Nghymru. Cawsom dystiolaeth gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion, a chomisiynwyd dau adroddiad tystiolaeth gennym hefyd gan Dr Joah Madden,

academydd blaenllaw sy'n arbenigo yn y maes hwn, er mwyn llywio ein gwaith ymhellach. Cynhyrchodd Dr Madden ddau adroddiad, a gyhoeddwyd ill dau yn ein hymgynghoriad: adroddiad ar batrymau rhyddhau, rheoli a saethu adar hela yng Nghymru ac adolygiad o effeithiau ecolegol rhyddhau a rheoli adar hela yng Nghymru.

Gwnaethom ystyried yr holl dystiolaeth a oedd ar gael a'i defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu cynigion, a nodwyd yn ein dogfen ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys y cynnig i gynghori Gweinidogion Cymru i gymryd y camau angenrheidiol i ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9 er mwyn dod â'u rhyddhau yng Nghymru i mewn i fframwaith rheoleiddio. Gwnaethom hefyd gynnwys dull trwyddedu arfaethedig y gellid ei roi ar waith pe bai Gweinidogion Cymru yn bwriadu gweithredu ar y cyngor hwnnw.

Cynhaliasom ymgynghoriad cyhoeddus o 12 wythnos ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar y cynigion hyn rhwng 27 Mawrth a 20 Mehefin 2023. Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle statudol, fel sy'n ofynnol gan adran 26(4) o'r Ddeddf, i unrhyw un yr effeithir arno gan y cynnig i ychwanegu'r rhywogaeth at Atodlen 9 ddarparu sylwadau. Roedd hefyd yn gyfle i bartïon â diddordeb wneud sylwadau ar gymesuredd ac effeithiolrwydd y dull trwyddedu arfaethedig. Cawsom dros 42,000 o ymatebion. Gwnaethom roi copïau dienw o'r ymatebion hyn i Lywodraeth Cymru, ynghyd â'n Hadroddiad Cryno o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad, ym mis Gorffennaf 2023.

Bwriad ein hymgynghoriad oedd casglu safbwyntiau ac awgrymiadau o sylwedd ac nid oedd wedi'i fwriadu i fod yn 'bleidlais' ar y cynigion. Felly darparwyd blychau testun rhydd yn hytrach nag opsiynau blychau ticio ar gyfer ymatebion i'r cwestiynau. Er ein bod yn parhau i fod o'r farn mai dyma'r dull cywir, mae wedi cyflwyno rhai heriau wrth ddadansoddi cymaint o ymatebion.

Rydym yn defnyddio methodoleg ansoddol a elwir yn ddadansoddi thematig, sy'n ddull a gydnabyddir yn eang at ddadansoddi data ansoddol sy'n galluogi ymchwilwyr i gynhyrchu mewnwelediadau a chysyniadau sy'n deillio o ddata. Mae dadansoddi thematig yn golygu darllen trwy set ddata a nodi themâu, barn neu safbwyntiau sy'n cael eu hailadrodd ar draws y set ddata. Oherwydd maint a natur yr ymatebion, rydym wedi defnyddio sampl ar hap. Mae staff CNC wedi dadansoddi'r ymatebion ac rydym hefyd wedi gofyn i ddadansoddwr annibynnol gynnal ei ddadansoddiad thematig ei hun ac yna cymharu ei ganlyniadau â'n rhai ni. Canfu'r 'dadansoddiad cadarnhau hwn', a ddarperir yn Atodiad 2, fod dadansoddiadau mewnol ac allanol yn nodi'r un themâu yn fras, er bod rhai gwahaniaethau yn y ffordd y cafodd yr ymatebion eu grwpio. Mae hyn yn awgrymu ei bod yn annhebygol y bydd rhagfarn ddiarwybod arwyddocaol yn ein dadansoddiad ac mae'n rhoi hyder bod y dull samplu yn briodol ac yn effeithiol.

Er mwyn darparu'r cyngor hwn, rydym wedi canolbwyntio i ddechrau ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n uniongyrchol berthnasol i'r penderfyniad gan Weinidogion Cymru ynghylch a ddylid ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9. Darperir holl gwestiynau'r ymgynghoriad yn Atodiad 1. Roedd cwestiynau 1-3 yn weinyddol ac yn gofyn am enw a chyfeiriad e-bost yr ymgynghorai ac a oedd yn ymateb ar ran sefydliad.

Mae'r cyngor hwn yn canolbwyntio ar ymatebion i Gwestiwn 4:

> *"A gytunwch y dylid ychwanegu ffesantod a phetris coesgoch at Ran 1 o Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yng Nghymru? Byddai'r newid hwn yn*

*golygu y byddai angen rhyddhau'r rhywogaethau hynny yng Nghymru o dan drwydded. Rhowch resymau dros eich safbwyntiau."*

a'r pedwar cwestiwn sy'n ymwneud ag effeithiau ar y Gymraeg:

*"A allai'r cynigion effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?*

*A oes modd i ni gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg neu roi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? - Os oes, eglurwch yn y blwch isod*

*Oes yna unrhyw agweddau o'r cynigion a allai roi pobl dan anfantais wrth ddefnyddio'r Gymraeg? - Os oes, esboniwch yr effeithiau a sut y gellid eu lliniaru yn y blwch isod*

*Ydych chi'n credu bod y cynllun yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? - Os ydych, eglurwch yn y blwch isod."*

Mae canlyniadau ein dadansoddiad o'r rhannau hyn o'r ymgynghoriad, a'n hystyriaeth o'r themâu a nodwyd, yn sail i weddill y cyngor hwn. Yn benodol, a yw unrhyw farn a roddwyd mewn ymateb i'r cwestiynau hyn yn ein harwain at newid ein cyngor arfaethedig, fel y nodir yn yr ymgynghoriad, y dylid ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9.

Unwaith y bydd gennym benderfyniad Gweinidogion Cymru, byddwn mewn sefyllfa i benderfynu a ydym am gwblhau'r dadansoddiad o gwestiynau 5-9 yn yr ymgynghoriad, sy'n ymwneud â'r dull trwyddedu arfaethedig.

# Canfyddiadau ein hadolygiad o dystiolaeth a'n dull gweithredu arfaethedig

Yn ein dogfen ymgynghori, gwnaethom grynhoi ein safbwynt yn dilyn ein hadolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael:

*"Mae tystiolaeth dda bod llawer o'r gweithgareddau rheoli sy'n gysylltiedig â rhyddhau adar hela â'r potensial i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth, ond ar lefelau anghynaliadwy neu mewn lleoliadau sensitif, mae gan ryddhau adar hela y potensial i achosi niwed amgylcheddol.*

*Teimlwn fod y dystiolaeth o'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol ar safleoedd rhyddhau, ac yn agos atynt, yn argyhoeddiadol a bod cytundeb cyffredinol ynghylch y mesurau priodol a all leihau a rheoli'r effeithiau hynny.*

*Rydym o'r farn nad yw'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n deillio o ryddhau adar hela yn berthnasol i'r rhwydwaith safleoedd gwarchodedig yn unig. Gwyddom fod cynefinoedd a rhywogaethau o'r pwys mwyaf i fioamrywiaeth yng Nghymru, a restrir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, i'w cael ledled Cymru ac nid mewn ardaloedd dynodedig yn unig. Yn yr un modd, rydym yn amcangyfrif mai dim ond tua 9% o'r coetir hynafol sydd wedi'i fapio yng Nghymru sy'n dod o fewn SoDdGA, er y byddai'r enghreifftiau gorau fel arfer i'w cael o fewn safleoedd gwarchodedig..*

*Rydym yn cydnabod bod yna hefyd rwydwaith cymhleth o effeithiau posibl eraill y mae’r dystiolaeth ar eu cyfer ar hyn o bryd yn wannach neu’n fwy amwys. Gall fod gan lawer o'r effeithiau hyn oblygiadau ar raddfa ehangach. Mae rhai o'r effeithiau hyn yn destun rhaglenni tystiolaeth parhaus a disgwyliwn y bydd ein dealltwriaeth yn gwella dros y ddwy neu dair blynedd nesaf. Byddai datblygu ymateb rheoleiddiol i geisio rheoli'r effeithiau hyn ar yr adeg hon yn anodd a gallai fod mewn perygl o fod yn wrthgynhyrchiol. Efallai mai’r ymateb mwyaf priodol i’r risgiau hyn ar hyn o bryd fydd monitro’r sefyllfa a sicrhau bod unrhyw ddull a gyflwynir gennym yn ddigon hyblyg i ganiatáu i dystiolaeth newydd fod yn destun camau gweithredu prydlon.”*

Yna gwnaethom amlinellu’r cyngor yr oeddem yn bwriadu ei ddarparu mewn ymateb i’r dystiolaeth honno:

*“Rydym yn cynnig cynghori Gweinidogion Cymru y dylid ychwanegu ffesantod a phetris coesgoch at Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y mae’n gymwys i Gymru. Bydd hyn yn golygu y byddai unrhyw ryddhad bwriadol o’r rhywogaethau hynny i’r gwyllt unrhyw le yng Nghymru yn drosedd o dan adran 14 o’r Ddeddf oni bai ei fod yn cael ei wneud o dan drwydded a roddwyd gan CNC.”*

Roedd y ddogfen ymgynghori wedyn yn nodi’r fframwaith ar gyfer dull trwyddedu yr oeddem yn cynnig ei roi ar waith pe bai’r penderfyniad yn cael ei wneud i ychwanegu’r ddwy rywogaeth at Atodlen 9.

Cynigiasom y byddai trwydded gyffredinol, yn seiliedig ar yr argymhellion yng nghanllawiau’r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt ar ryddhau adar hela yn gynaliadwy, ar gael ar gyfer rhyddhau 500 metr neu ymhellach o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) sensitif neu safle Ewropeaidd. Cynigiasom ymhellach y byddai angen gwneud cais am drwydded benodol gan CNC i ryddhau mewn safle gwarchodedig sensitif, neu o fewn 500 metr iddo, neu mewn safle nad oedd fel arall yn bodloni telerau ac amodau’r drwydded gyffredinol (er enghraifft, oherwydd y dwysedd o fewn corlannau rhyddhau).

Darparwyd ein hasesiad o’r dystiolaeth sydd ar gael a’n rhesymeg dros wneud y cynigion hyn yn fanwl yn y ddogfen ymgynghori a’r dogfennau ategol ac maent ar gael i’r cyhoedd. Mae’r drafodaeth ganlynol felly’n canolbwyntio ar ein hasesiad o’r safbwyntiau a’r awgrymiadau a gyflwynwyd mewn ymateb i’n cynigion.

# Themâu a nodwyd o ymatebion i'n hymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau ar y cynnig i ychwanegu’r ddwy rywogaeth at Atodlen 9 ac ar effeithiolrwydd a chymesuredd y dull trwyddedu arfaethedig. Gofynasom hefyd am farn ar elfennau penodol o'r dull hwnnw. Nid ydym eto wedi dadansoddi'r ymatebion yn llawn am y dull trwyddedu arfaethedig gan ein bod yn aros am benderfyniad gan Weinidogion Cymru ynghylch rhestru yn Atodlen 9. Mae testun llawn yr holl gwestiynau i’w weld yn Atodiad 1.

Cawsom ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn cynnwys ystod eang o safbwyntiau a barnau. Nododd y dadansoddiadau wyth thema allweddol o'r ymatebion i Gwestiwn 4 a nifer o themâu sy'n codi o'r cwestiynau am y Gymraeg.

## Thema 1: Pryderon am fwriadau gwleidyddol

### Sylwadau ymatebwyr

Gellir categoreiddio'r rhan fwyaf o'r safbwyntiau a ystyriwyd o dan y thema hon fel rhai sydd yn erbyn ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9.

Maent yn cynnwys safbwyntiau bod hyn yn rhan o agenda wleidyddol yn hytrach na datblygu polisi a ysgogir gan dystiolaeth. Mae llawer o'r ymatebion hyn yn cyfeirio at achosion lle mae Gweinidogion Cymru wedi mynegi barn yn gyhoeddus a ystyriwyd yn 'wrth-saethu'. Mynegodd rhai ymatebwyr ddiffyg ymddiriedaeth yn Llywodraeth Cymru ac CNC, gyda rhai yn cyhuddo CNC o fod â thuedd ragdybiedig yn erbyn rheoli helwriaeth.

Mynegodd llawer o ymatebwyr ofn pe bai rhyddhau adar hela yn destun rheoliadau, y gallai trwyddedau gael eu gwrthod neu eu dirymu unrhyw bryd. Roedd hyd yn oed rhai o'r rhai a deimlai nad oedd y dull trwyddedu arfaethedig yn afresymol wedi mynegi pryderon bod bwriad i'w wneud yn llawer mwy cyfyngol ar ôl ei sefydlu, neu hyd yn oed wahardd rhyddhau adar hela yn gyfan gwbl. Defnyddiwyd y term "*blaen y gyllell*" yn gyffredin. Teimlai rhai ymatebwyr fod hwn yn ymosodiad ar gefn gwlad, ac yn symptomatig o duedd drefol ymhlith llunwyr polisi nad oeddent yn deall materion gwledig.

Mynegodd rhai feirniadaeth gyffredinol o'r ymgynghoriad, gan honni ei fod yn wastraff arian cyhoeddus neu'n awgrymu materion eraill y teimlent y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth iddynt (gyda'r gwasanaeth iechyd, seilwaith trafnidiaeth, a chostau byw yn rhai enghreifftiau). Honnodd llawer fod yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau arweiniol (anogodd rhai sefydliadau rhanddeiliaid eu haelodau i ymateb yn y modd hwn) neu nad oedd yn rhoi cyfiawnhad dros yr achos gweithredu arfaethedig, gyda rhai ymatebwyr yn mynegi barn nad oedd unrhyw dystiolaeth na manylion wedi'u darparu o gwbl yn cefnogi'r cynigion.

Roedd y cynnig i reoleiddio'r hyn sy'n weithgaredd cyfreithlon ar hyn o bryd yn cael ei weld gan rai fel tresmasu sylfaenol ar eu hawliau dynol a'u rhyddid sifil.

I'r gwrthwyneb, mynegodd rhai ymatebwyr ddiffyg ymddiriedaeth yn y gymuned saethu. Daeth hyn yn nodweddiadol gan ymatebwyr a oedd o blaid rheoleiddio ychwanegol ac roedd yn rhan o'u canfyddiad nad oedd y ddibyniaeth bresennol ar hunanreoleiddio yn opsiwn ymarferol.

### Barn CNC

Rydym yn cydnabod, i lawer o ymatebwyr, fod y farn y gallai'r cynigion hyn arwain at wahardd saethu adar hela sydd wedi eu rhyddhau yn cynrychioli pryderon gwirioneddol.

Fodd bynnag, mae'r trosolwg o'n hymgynghoriad yn datgan:

> *“Rydym bellach am gael eich barn ar ddull rheoleiddio newydd arfaethedig. Ein nod yw rhoi system effeithiol, ymarferol a chymesur ar waith a fydd yn helpu’r sector saethu anifeiliaid hela i weithredu’n gynaliadwy.”*

ac yn parhau:

> *“Nid ymgynghoriad yw hwn ynghylch p’un a ddylid parhau i ganiatáu saethu ysglyfaethau byw ai peidio yng Nghymru.”*

Gwnaethom hefyd nodi ein cynigion trwyddedu arfaethedig yn yr ymgynghoriad ynghyd â'n rhesymeg a'n tystiolaeth ategol, a oedd yn ei gwneud yn glir mai ein nod oedd dod o hyd i ateb cymesur sy'n seiliedig ar risg.

Rydym yn ymwybodol, o ddadansoddi sut y cafwyd ymatebion i’r ymgynghoriad, ei bod yn ymddangos bod llawer o ymatebwyr wedi cyrchu cwestiynau’r ymgynghoriad drwy lywio’n uniongyrchol o ddolenni a ddarperir ar wefannau sefydliadau rhanddeiliaid. Mae hyn yn golygu eu bod yn debygol iawn o fod wedi osgoi tudalen y trosolwg, lle byddent wedi gallu darllen y datganiadau uchod a'r papur ymgynghori a chael mynediad at y dystiolaeth.

Nid ydym wedi mynd i’r afael yn fanwl ag unrhyw bryderon a fynegwyd ynghylch yr effaith y byddai gwaharddiad ar ryddhau adar hela yn ei chael, gan nad oedd hynny o fewn cwmpas ein hadolygiad ac nid yw’n rhan o’n cynigion.

Er nad yw’r farn o dan y thema hon yn newid ein barn y dylid ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9, mae’n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw ddull trwyddedu angenrheidiol yn effeithiol ac yn gymesur a bod penderfyniadau trwyddedu unigol yn cael eu gwneud yn gywir ac yn unol â'r gyfraith. Mae hefyd yn tynnu sylw at yr angen am negeseuon clir nad yw cyflwyno rheoliadau yn gyfystyr â gwaharddiad ar ryddhau neu saethu adar hela.

## Thema 2: Safbwyntiau am y dystiolaeth

### Sylwadau ymatebwyr

Mynegodd ymatebwyr farn wahanol ynghylch a oedd digon o dystiolaeth wedi’i darparu i gyfiawnhau rheoleiddio.

Teimlai llawer o ymatebwyr fod angen mwy o dystiolaeth cyn y gellid gwneud penderfyniad. Er enghraifft, cyfeiriodd rhai at yr angen i ddeall yn well y rhesymau dros gydymffurfedd gwael ymddangosiadol â’r cofrestriad gorfodol presennol gyda’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) neu y gwnaethant awgrymu aros i raglen ymchwil adar hela Llywodraeth y DU (dan arweiniad DEFRA) ddod i ben.

Roedd rhai’n dadlau bod ansicrwydd ynghylch a fyddai rheoleiddio’n cael effaith amgylcheddol negyddol net (drwy dynnu’r cymhellion i reoli tir yn gadarnhaol gan y rhai sy’n saethu adar hela) a bod yr egwyddor ragofalus felly yn mynnu na ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu. Cyfeiriodd rhai o’r ymgyngoreion hyn yn benodol at gasgliadau adroddiadau tystiolaeth Dr Joah Madden, yn enwedig y casgliadau y mae’n dod iddynt am y bylchau hanfodol yn y dystiolaeth. Yn benodol, cafodd yr adrannau canlynol a gymerwyd

o [adroddiad Dr Madden ar batrymau rhyddhau, rheoli a saethu adar hela yng Nghymru]() eu dyfynnu:

> *"There is a fundamental knowledge gap revealed by this analysis: that reliable data on the scale, extent or history of gamebird releases in Wales is extremely poor."*

> *"A secondary knowledge gap made evident by this review is that it is unknown what are the management methods that accompany each release including their compliance with recommended best practice guidelines."*

> *"Without accurate information about the scale and extent of compliance with these guidelines, in conjunction with the primary knowledge gap relating to the scale, extent and history of releases, it becomes extremely difficult to reliably determine the net ecological effects of gamebird release and management in Wales."*

> *"There are critical gaps in the data required to make any accurate analysis about the consequences of gamebird release and management in Wales."*

## Barn CNC

Yn ein hymgynghoriad, derbyniasom fod meysydd lle'r oedd y dystiolaeth a oedd ar gael yn anghyflawn neu'n amwys.

Rydym yn nodi bod rhai ymgyngoreion o'r farn bod y datganiadau a wnaed gan Dr Madden, fel y nodir uchod, yn dangos nad yw CNC yn gallu dangos bod problem ar hyn o bryd o ran rhyddhau adar hela yng Nghymru. O fewn yr un adroddiad, mae Dr Madden yn nodi tri bwlch gwybodaeth penodol:

> *"I report three obvious knowledge gaps that would benefit from further investigation to improve the data. First, a more reliable record of the location and scale of releases is needed. Second, details of the management of the birds post release at sites would be helpful to determine their likely impacts, especially when releases and management may occur close to ecologically important sites or protected areas. Third, understanding the likely future behaviour of game managers following the apparent marked changes in gamebird release and management over the past three years due to COVID and HPAI is essential to accurately predict future scenarios of gamebird release and management and thus their ecological consequences."*

Yn ddiweddarach, mae'n nodi diffyg rheoleiddio a chydymffurfedd gwael â gofynion cofrestru cyfredol fel y prif ffactorau yn hyn o beth:

> *"There are two main problems to be considered when attempting to answer these questions. First, the release and management of gamebirds for shooting is currently lightly regulated and this, coupled with a concern about privacy and security in the face of disturbance from some people opposed to shooting, mean that there is little incentive to collect or publish data relating to release sites and sizes. Second, there is likely to be poor compliance with the regulation that does exist in the form of the APHA Poultry Register which requires people with holdings of more than 50 gamebirds for release to declare them (Madden 2021)."*

Ac yn olaf, daw ei gasgliad i ben gyda'r canlynol:

> *“More accurate data, either obtained through improved compliance with the existing registration requirements or derived through new sources could improve the accuracy and coverage of our knowledge about this activity and its ecological (and socio-economic) effects.”*

Rydym yn dal o’r farn bod digon o dystiolaeth i ddangos bod risgiau heb eu rheoli. Rydym hefyd yn parhau i fod o’r farn y bydd y dull rheoleiddio arfaethedig, ynghyd â chydymffurfedd gwell â gofynion y gofrestr dofednod orfodol, yn hanfodol i wella’r data ynghylch maint a lleoliad achosion o ryddhau yng Nghymru, ac felly eu heffeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol. Yn benodol, rydym o’r farn y byddai ein hymagwedd arfaethedig yn gwella’r data ar raddfa a lleoliad achosion o ryddhau a’r arferion rheoli cysylltiedig yng nghyffiniau ardaloedd gwarchodedig.

Teimlai rhai ymgyngoreion nad oedd unrhyw gyfiawnhad dros gyflwyno rheoleiddio hyd nes y byddai’r holl fylchau cydnabyddedig yn y dystiolaeth yn ymwneud ag effeithiau amgylcheddol rhyddhau wedi’u llenwi.

Er ein bod yn croesawu’r rhaglen ymchwil adar hela a arweinir gan DEFRA ac wedi ymrwymo i ystyried ac ymateb yn briodol i unrhyw dystiolaeth newydd a ddaw i’r amlwg, nid ydym yn derbyn y gellir cyfiawnhau aros am ei chasgliad a drefnwyd ym mis Tachwedd 2024. Mae DEFRA wedi rhoi cyfundrefn drwyddedu dros dro ar waith tra bod y gwaith hwn yn cael ei wneud ac mae’n ymddangos bod rhai o’r allbynnau’n dibynnu ar ddata a gasglwyd fel rhan o’r mecanweithiau adrodd yn y canllawiau GL43 a geir ganddynt. Mae'n amlwg na fydd casgliad rhaglen dystiolaeth DEFRA yn sicrhau sicrwydd gwyddonol absoliwt ac rydym o'r farn bod digon o dystiolaeth eisoes i gyfiawnhau gweithredu. Rhaid inni felly fod yn bragmatig ond sicrhau bod unrhyw ddull yn cael ei adolygu’n barhaus wrth i’r dystiolaeth ddatblygu a cheisio defnyddio unrhyw ddull rheoleiddio i wella ein dealltwriaeth.

Roedd rhai’n dadlau bod bylchau yn y dystiolaeth yn golygu bod ansicrwydd gwyddonol ynghylch a fyddai rheoleiddio’n cael effaith negyddol net ar yr amgylchedd a bod hyn yn golygu na ddylid ystyried ymyrraeth. Eto, mynegwyd y safbwyntiau i’r gwrthwyneb hefyd, gyda rhai’n cytuno bod y dull arfaethedig yn ymateb cymesur i ansicrwydd ac eraill yn teimlo mai’r ymateb cywir i ansicrwydd gwyddonol oedd cymryd safiad llawer mwy cyfyngol hyd nes y gellid diystyru’n derfynol unrhyw effeithiau amgylcheddol. Roedd ymatebwyr â’r holl safbwyntiau hyn yn aml yn cyfeirio at yr egwyddor ragofalus i gefnogi eu dadleuon.

Nod yr egwyddor ragofalus yw sicrhau lefel uchel o amddiffyniad amgylcheddol trwy wneud penderfyniadau ataliol yn achos risg. Aeth gwahanol ymgyngoreion at yr egwyddor hon o wahanol safbwyntiau ac, o ganlyniad, daethant i gasgliadau croes. Teimlai rhai, gan nad oedd rhai o effeithiau rhyddhau adar hela ar ardaloedd, cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig wedi’u deall yn llawn, fod yr egwyddor ragofalus yn golygu y dylai’r achosion hynny o ryddhau gael eu rheoleiddio'n ofalus, neu hyd yn oed eu hatal yn gyfan gwbl. Roedd eraill yn dadlau y gallai rheoleiddio newydd olygu bod llai o gymhelliant i fuddsoddi mewn gwaith cadwraeth ac felly’n peri risg i’r economi a swyddi gwledig. Teimlent fod cymhwyso'r egwyddor ragofalus o dan yr amgylchiadau hyn yn golygu peidio â rheoleiddio nes bod yr holl ansicrwydd ynghylch effeithiau rheoleiddio wedi'i ddileu.

Wrth gymhwyso'r egwyddor ragofalus, rydym wedi gwneud y canlynol:

- gwerthuso’r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael a phennu, cyn belled ag y bo modd, i ba raddau yr oedd ansicrwydd gwyddonol
- gwerthuso risgiau a chanlyniadau posibl peidio â gweithredu
- cynnwys partïon â diddordeb yn y gwaith o nodi tystiolaeth berthnasol ac wrth ddatblygu a llunio'r ymateb rheoleiddiol arfaethedig

Rydym hefyd wedi cymhwyso egwyddorion cyffredinol rheoli risg wrth gymhwyso’r egwyddor ragofalus:

- Cymesuredd rhwng y mesurau a gymerwyd a'r lefel warchodaeth a ddewiswyd
- Peidio â gwahaniaethu wrth gymhwyso'r mesurau
- Cysondeb y mesurau â mesurau tebyg a gymerwyd eisoes mewn sefyllfaoedd tebyg neu wrth ddefnyddio dulliau tebyg
- Archwilio manteision a chostau gweithredu neu ddiffyg gweithredu
- Ymrwymiad i adolygu unrhyw fesurau yng ngoleuni datblygiadau gwyddonol

Mae tystiolaeth wyddonol ddiamheuol i raddau helaeth fod gan ryddhau adar hela'r potensial i achosi niwed amgylcheddol, yn enwedig lle na ddilynir arferion da neu lle mae lleoliadau rhyddhau yn sensitif. Cadarnhaodd ein hadolygiad fod y rhan fwyaf (ond nid pob un) o’r partïon â diddordeb yn cytuno bod canllawiau’r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt ar ryddhau adar hela yn gynaliadwy yn y rhan fwyaf o achosion yn cyflwyno set resymol o fesurau rhagofalus. Mae cytundeb cyffredinol hefyd y dylai achosion risg uwch o ryddhau adar hela, yn enwedig lle maent yn agos at ardaloedd dynodedig sensitif, fod yn destun asesiad unigol yng nghyd-destun y nodweddion penodol y gellid effeithio arnynt. Rydym yn ymwybodol bod rhai achosion o ryddhau yn digwydd yng Nghymru sydd ar raddfa sylweddol ac weithiau’n agos at ardaloedd gwarchodedig. Fodd bynnag, nododd yr adolygiad hefyd feysydd o ansicrwydd, yn enwedig o ran graddfa a lleoliad yr achosion rhyddhau a’r graddau y mae’r achosion hynny’n dilyn arferion da. Mae cyrff sy’n cynrychioli’r gymuned saethu adar hela yn credu bod arferion da yn cael eu mabwysiadu’n eang ond ni allant ddarparu tystiolaeth gadarn i ddangos hyn.

Rydym yn cydnabod y gall cyflwyno rheoliadau arwain at risgiau o ganlyniadau anfwriadol, ond drwy seilio amodau’r drwydded gyffredinol arfaethedig ar ganllawiau’r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt a chymhwyso dull sy’n seiliedig ar risg, gydag opsiynau cyffyrddiad ysgafn lle bo’n briodol (gan gynnwys rhoi trwydded gyffredinol yn benodol), a thrwy fonitro effaith trwyddedu ar ôl ei weithredu, rydym o'r farn y gellir lleihau'r risgiau hynny.

Pe bai’r penderfyniad yn cael ei wneud i ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9, byddwn yn ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad mewn perthynas â’n dull trwyddedu arfaethedig gyda’r bwriad o sicrhau ei fod yn addas, yn angenrheidiol ac yn gytbwys. Rydym yn deall y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal Asesiad Effaith

Rheoleiddiol fel rhan o’i hasesiad ynghylch a ddylid ychwanegu’r ddwy rywogaeth hyn at Atodlen 9.

## Thema 3: Safbwyntiau am fanteision saethu

### Sylwadau ymatebwyr

Gwnaeth nifer o ymatebwyr yr achos economaidd dros saethu, gan gynnwys yn uniongyrchol i ddigwyddiadau saethu a busnesau cysylltiedig megis y sector lletygarwch. Nododd rhai gyfraniad ariannol saethu adar hela i gymunedau gwledig dan anfantais economaidd, yn enwedig ar adegau o’r flwyddyn pan nad oedd incwm o fathau eraill o dwristiaeth a hamdden yn ddibynadwy. Awgrymodd rhai y byddai angen i'r llywodraeth roi cymorth ariannol i ardaloedd pe bai refeniw saethu yn cael ei effeithio'n andwyol.

Codwyd manteision cymunedol gan rai, gan gynnwys creu cyflogaeth leol a darparu cyfleoedd i gymunedau gwledig ddod at ei gilydd. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at fanteision personol saethu, gan gynnwys iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. Ymdrinnir â barn ymatebwyr am y berthynas rhwng saethu adar hela a defnydd o'r Gymraeg yn ddiweddarach yn y cyngor hwn.

Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yw’r buddion cadwraeth ac amgylcheddol ehangach sy’n deillio o reoli cynefinoedd a rheoli plâu. Mae’r dadleuon ynghylch effeithiau amgylcheddol gweithgarwch saethu anifeiliaid hela yn cael eu hystyried yn fanylach o dan Thema 5.

Cyfeiriodd rhai ymatebion at saethu anifeiliaid hela yn darparu cig maes, a theimlai rhai ymatebwyr y dylid ei gydnabod fel ffynhonnell fwyd iach a chynaliadwy.

Mynegwyd safbwyntiau i’r gwrthwyneb hefyd a oedd yn awgrymu bod manteision amgylcheddol, cymdeithasol-economaidd saethu a gwerth maethol helgig yn cael eu gorbwysleisio.

### Barn CNC

Nid oes fawr o amheuaeth yn yr ymatebion a dderbyniwyd bod saethu adar hela yn bwysig i'r rhai sy'n cymryd rhan ynddo a'r rhai y mae eu bywoliaeth yn gyfan gwbl neu'n rhannol ddibynnol ar y gweithgaredd. Mae saethu adar hela yn amlwg yn ddiwylliannol bwysig i lawer o bobl ac yn bwysig i'w synnwyr o lesiant, hunaniaeth a chymuned. Mynegodd llawer o ymatebion ofnau bod y manteision hyn mewn perygl. Fodd bynnag, roedd y rhai yr oedd eu hymatebion yn canolbwyntio ar y thema hon yn aml yn gwneud hynny yng nghyd-destun gwaharddiad canfyddedig ar saethu, nad yw'n cael ei gynnig.

Yn ein hadolygiad o’r dystiolaeth, gwnaethom gydnabod bod tystiolaeth gref bod gan arferion rheoli sy’n gysylltiedig â saethu adar hela’r potensial i sicrhau manteision cadwraeth ar raddfa’r dirwedd. Nid yw’n syndod felly bod hon yn thema gyffredin yn yr ymatebion i’n hymgynghoriad. Fodd bynnag, er mwyn i waith o'r fath sicrhau manteision cadwraeth net, rhaid ei gyplysu ag arferion da. Bwriad ein dull gweithredu arfaethedig yw rheoli unrhyw effeithiau negyddol drwy annog arferion da a gweithgareddau rheoli buddiol.

Gofynnwyd i ni ystyried opsiynau ar gyfer system reoleiddio effeithiol, ymarferol a chymesur. Nid ydym wedi cael cais i ystyried gwaharddiad ar ryddhau adar hela ac nid oedd yn rhan o'r cynigion yr ymgynghorwyd yn eu cylch. Nid ydym yn rhagweld y bydd y dull rheoleiddio arfaethedig yn atal y diwydiant rhag parhau i ddarparu buddion economaidd, cymdeithasol a llesiant ac, os yw rheoleiddio i'w gyflwyno, byddwn yn gweithio gyda'r sector i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn wir. Rydym yn rhagweld y byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn helpu'r sector saethu anifeiliaid hela i ddangos ei fod yn gweithredu'n gynaliadwy.

## Thema 4: Safbwyntiau am y system bresennol

### Sylwadau ymatebwyr

Roedd y safbwyntiau a fynegwyd am y system bresennol yn cynnwys safbwyntiau o blaid ac yn erbyn rheoleiddio ychwanegol.

Mynegodd rhai farn bod achosion o ryddhau eisoes yn cael eu rheoleiddio'n ddigonol, neu hyd yn oed yn "drwm". Yn aml, roedd yr ymatebion hyn yn cyfeirio'n benodol at ddarpariaethau cydsynio SoDdGA presennol ac awgrymodd rhai y gallai CNC ddefnyddio "hysbysiadau stop".

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod hunanreoleiddio yn effeithiol a'i fod eisoes yn darparu mesurau diogelu digonol. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod y system bresennol yn effeithiol ac felly nad oedd angen newid, gyda llawer yn defnyddio'r ymadrodd "*os nad yw wedi torri, peidiwch â'i drwsio*" i nodweddu eu barn.

I'r gwrthwyneb, roedd y rhai a oedd o blaid rheoleiddio ychwanegol yn aml yn cyfeirio at enghreifftiau o droseddau bywyd gwyllt (fel erledigaeth adar ysglyfaethus), llosgi rhostir a'r cynnydd parhaus o fwledi plwm, ynghyd â lefelau isel o gydymffurfio â gofynion cofrestru'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), fel tystiolaeth i ddangos na ellir dibynnu ar y sector saethu anifeiliaid hela i reoleiddio ei hun. Roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu i ystyried bod hyn yn cyfiawnhau'r cynnig i gyflwyno trwyddedu ac nad yw'r system bresennol yn ddigonol.

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod ciperiaid yn adnabod eu hardal yn dda, a nhw sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynghylch cadwraeth y tir y maent yn ei reoli.

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod saethu adar hela a ryddhawyd yn draddodiad hirsefydlog sydd wedi bod yn digwydd ers amser maith heb yr angen am reoleiddio yn eu barn nhw. I'r gwrthwyneb, teimlai eraill fod angen rheoleiddio'r sector a bod hyn bellach yn arbennig o frys o ystyried maint cynyddol y diwydiant. Roedd graddfa'r digwyddiadau saethu'n bwnc a gododd dro ar ôl tro – gyda rhai ymatebwyr yn ystyried bod problemau sy'n deillio o ddigwyddiadau saethu mawr, masnachol yn bygwth y dull mwy traddodiadol o saethu adar hela a ryddhawyd.

Roedd yr ymatebwyr hefyd yn rhannu amrywiaeth o safbwyntiau am faterion moeseg a llesiant anifeiliaid ac i ba raddau yr oedd y rhain yn cael sylw ar hyn o bryd.

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn ddiffyg rheoleiddio ffurfiol cyfredol. Daeth yr ymatebion hyn yn bennaf gan y rhai a oedd o blaid ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9. Roedd y rhesymau a roddwyd dros gefnogi hyn fel dull yn cynnwys yr hyn yr oeddent yn ei weld fel anfanteision y diffyg rheoleiddio presennol. Roedd hyn yn cynnwys adar hela a ryddhawyd yn effeithio ar yr amgylchedd, effeithiau negyddol ar eiddo cyfagos, a'r adar yn cyflwyno perygl i ddefnyddwyr ffyrdd. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at statws cyfreithiol adar hela a ryddhawyd fel adar gwyllt a bod hyn yn caniatáu i ddigwyddiadau saethu ryddhau eu hunain o gyfrifoldeb am unrhyw niwed a achosir gan yr adar y maent yn eu rhyddhau.

## Barn CNC

Rydym wedi ystyried yn fanwl ddigonolrwydd cydsynio SoDdGA fel fframwaith rheoleiddio ar gyfer rhyddhau adar hela. Er ei fod yn darparu modd o reoleiddio gweithgareddau sy'n digwydd o fewn ffin SoDdGA, nid yw'n darparu unrhyw fecanwaith i reoli rhyddhau y tu allan i'r ffiniau hynny, hyd yn oed os ydynt yn union gerllaw'r safle. Mae’r cyfyngiadau hyn yn hysbys iawn ac wedi bod yn brif gymhelliant i Weinidogion Cymru ofyn inni ystyried opsiynau ar gyfer rheoleiddio rhyddhau adar hela yng Nghymru, ac ar gyfer y gwaith cynharach a wnaed yn Lloegr.

Rydym wedi ystyried awgrymiadau a wnaed am ddulliau eraill, gan gynnwys defnyddio “hysbysiadau stop”. Tybiwn fod hwn yn gyfeiriad at y darpariaethau sy’n ymwneud â Gorchmynion Cadwraeth Natur Arbennig yn Rheoliadau 27-31 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Nid ydym yn ystyried hwn yn ddewis amgen rhesymol i gyflwyno darpariaeth drwyddedu drwy ychwanegu’r rhywogaethau at Atodlen 9. Rydym wedi dod i'r farn hon am ddau reswm. Yn gyntaf, dim ond i safleoedd Ewropeaidd y gall y gorchmynion hyn fod yn berthnasol. Ni ellir eu defnyddio i reoli risgiau effeithiau rhyddhau adar hela yn agos at safleoedd sydd wedi’u dynodi’n SoDdGA yn unig, ac ni ellir eu defnyddio ychwaith i ddiogelu’r cynefinoedd a rhywogaethau hynny a nodir ac a restrir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn ail, maent yn fecanwaith “dewis olaf” gyda'r bwriad o fynd i'r afael â bygythiad i safle penodol lle mae dulliau eraill wedi methu, yn hytrach nag offeryn i reoli risg fwy cyffredinol sy'n deillio o weithgarwch eang.

Roedd rhai ymatebion i’r ymgynghoriad yn cyfeirio at y darpariaethau presennol ar gyfer cynnal Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Nodwn unwaith eto y byddai'r ddarpariaeth hon ond yn berthnasol yng nghyd-destun effeithiau arwyddocaol tebygol ar safle Ewropeaidd yn hytrach nag ar SoDdGA. Fodd bynnag, yn bwysicach fyth efallai, nid yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn fecanwaith rheoleiddio yn ei rinwedd ei hun ac ni ellir ei gymhwyso oni bai fod y gweithgaredd yn amodol ar benderfyniad gan awdurdod cyhoeddus. Byddai cyflwyno system drwyddedu yn gyfystyr â gwneud penderfyniadau o'r fath ac felly'n galluogi cyflawni Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.

Nodwn fod nifer o ymatebwyr o blaid parhau â'r hyn y maent yn ei alw'n hunanreoleiddio. Roedd hon yn thema gyffredin, ac rydym wedi cydnabod pwysigrwydd y codau ymarfer a’r canllawiau a gynhyrchir gan y diwydiant. Fodd bynnag, nid ydym ychwaith wedi gallu nodi, o'r ymatebion i'r ymgynghoriad neu unrhyw ffynonellau eraill, unrhyw dystiolaeth gadarn i ddangos i ba raddau y mae codau ymarfer a chanllawiau gwirfoddol yn cael eu dilyn. Teimlai rhai ymatebwyr nad yw diffyg data ynghylch a yw digwyddiadau saethu yn cydymffurfio â chanllawiau arferion da presennol yn rheswm i ystyried dod â rhyddhau

adar hela dan reolaeth, gan ddadlau nad oes fawr o dystiolaeth ychwaith i ddangos diffyg cydymffurfio.

Nid ydym yn anghytuno mai data cyfyngedig iawn sydd ar gael ynghylch i ba raddau y cydymffurfir â chanllawiau arferion da ar ryddhau adar hela neu i ba raddau y cânt eu torri. O ystyried y rôl hollbwysig sydd gan arferion da wrth liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhyddhau adar hela, rydym yn parhau i fod o'r farn na fyddai modd cyfiawnhau derbyn y lefel hon o ansicrwydd ac y byddai gwneud felly yn groes i'r egwyddor ragofalus a amlinellwyd mewn perthynas â Thema 2 uchod.

Mae ein dull rheoleiddio arfaethedig yn defnyddio canllawiau'r diwydiant ei hun fel ei sylfaen. Felly, nid ydym yn rhagweld y byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn golygu newid sylweddol i'r rhan fwyaf o'r rhai sydd eisoes yn gweithredu yn unol ag arfer gorau, pe bai Gweinidogion Cymru yn penderfynu ychwanegu'r rhywogaethau at Atodlen 9.

## Thema 5: Ystyriaethau amgylcheddol

### Sylwadau ymatebwyr

Mae'r thema hon yn cwmpasu safbwyntiau am effeithiau amgylcheddol saethu adar hela ac, o'r rhain, mae dwy is-thema, sydd yn aml yn wrthwynebus, wedi'u nodi.

Mae'r is-thema gyntaf yn ymwneud â'r farn bod presenoldeb digwyddiad saethu adar hela a ryddhawyd o fudd i'r amgylchedd lleol oherwydd y gwaith gwella amgylcheddol cadarnhaol a wneir fel rhan o reoli digwyddiadau saethu, gan gynnwys creu cynefinoedd a gwella a rheoli rhywogaethau pla. Teimlai llawer o'r rhai a oedd â'r farn hon y byddai unrhyw gwtogi ar weithgarwch saethu yn effeithio'n negyddol ar waith cadwraeth o'r fath a ariennir yn breifat.

Mae'r is-thema arall yn ymwneud â'r farn wrthrychol bod digwyddiadau saethu yn dueddol o fod yn niweidiol i'r amgylchedd – er enghraifft, oherwydd yr effeithiau negyddol y mae rhyddhau rhywogaethau anfrodorol yn eu cael ar fflora, ffawna a chynefinoedd brodorol. Roedd y safbwyntiau pellach a fynegwyd yn cynnwys cyfeiriadau at rôl adar hela wrth ledaenu clefydau, gan gynnwys ffliw adar pathogenaidd iawn, sylwadau y dylid bod wedi cynnwys rhyddhau hwyaid gwylltion yn yr adolygiad hwn, a phryderon ynghylch y defnydd o drapiau a maglau i reoli bywyd gwyllt a ystyrir gan reolwyr saethu fel rhywogaethau pla.

### Barn CNC

Rydym wedi ystyried y cwestiwn o effeithiau amgylcheddol rhyddhau adar hela yn fanwl yn ein hadolygiad o'r dystiolaeth ac wedi darparu ein casgliadau a'n rhesymeg yn y dogfennau ymgynghori.

Rydym yn cydnabod bod tystiolaeth dda y gall gweithgareddau rheoli a gyflawnir gan ddigwyddiadau saethu fod o fudd sylweddol i'r amgylchedd. Rydym hefyd o'r farn bod tystiolaeth dda y gall adar hela sy'n cael eu rhyddhau gael effeithiau negyddol ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn y ddadl bod y manteision posibl yn drech nag unrhyw bryderon ynghylch y niwed posibl i'r graddau a ddylai atal y broses o reoleiddio rhyddhau adar hela yn briodol. Gall gweithgareddau sydd o fudd i un

rhywogaeth neu gynefin effeithio’n andwyol ar un arall ac felly mae’n gwbl arferol i ymyriadau â buddion cadwraeth fod yn ddarostyngedig i reoleiddio. Er enghraifft, mae angen cydsyniad ar gyfer llawer o weithgareddau cadwraeth a gyflawnir o fewn SoDdGA, hyd yn oed os ydynt wedi'u cynnwys yn natganiad rheoli'r safle fel rhai buddiol neu hanfodol ar gyfer cynnal a chadw nodweddion arbennig y safle.

Nid ein bwriad yw cwtogi ar reolaeth gadarnhaol sy’n gysylltiedig â rhyddhau adar hela, ac nid ydym yn credu y bydd ein cynigion rheoleiddio yn cael yr effaith honno. Drwy ymgorffori’r arferion gorau presennol yn amodau’r drwydded a rhoi’r cyfle i arbenigwyr cynefinoedd a rhywogaethau ystyried achosion risg uwch o ryddhau yn unigol, credwn y bydd ein cynigion yn hybu’r agweddau amgylcheddol llesol ar reoli adar hela yn ogystal â pheidio â chefnogi arferion sy’n niweidiol i’r amgylchedd.

Nodwn bryderon rhai ymgyngoreion ynghylch eithrio hwyaid gwylltion o'r adolygiad hwn. Nid oedd hwyaid gwylltion wedi'u cynnwys yng nghwmpas y prosiect hwn ac felly ni chafodd eu cynnwys yn ein galwad am dystiolaeth, yr adolygiad o’r dystiolaeth na’r ymgynghoriad dilynol. Felly nid yw wedi'i gynnwys yn ein cynnig.

## Thema 6: Pryderon am effaith y newidiadau arfaethedig

### Sylwadau ymatebwyr

Roedd baich gweinyddol gwneud cais am drwyddedau penodol yn bryder i nifer o ymatebwyr.

Nodwyd costau, gan gynnwys y rhai a allai ymwneud â’r broses drwyddedu a chostau cydymffurfio, fel pryder, yn enwedig yn erbyn cefndir o bwysau eraill, gan gynnwys effeithiau COVID-19, ffliw adar pathogenaidd iawn (HPAI), Brexit, a chostau byw cynyddol.

Codwyd pryderon ynghylch gorfodi unrhyw drwyddedau, yn enwedig yng nghyd-destun cost, ymarferoldeb, a’r posibilrwydd o gyflwyno risg bioddiogelwch ychwanegol.

Codwyd trwyddedu fel achos ehangu anghydraddoldebau gan rai ymatebwyr, yng nghyd-destun costau posibl trwydded, anawsterau o ran deall unrhyw drwydded, a gwahaniaethu yn erbyn y rhai â mynediad digidol cyfyngedig.

Roedd is-thema benodol yn ymwneud â phwysigrwydd digwyddiadau saethu’n gallu cynllunio busnes dros gyfnod o sawl blwyddyn, a’r pryder oedd bod cyflwyno trwyddedu yn cyflwyno ansicrwydd sy’n arwain at ostyngiad mewn buddsoddiad, gan gynnwys ar gyfer rheoli cynefinoedd yn gadarnhaol. Roedd y farn hon yn arbennig o gysylltiedig â’r cynnig y byddai’r drwydded gyffredinol yn cael ei chyhoeddi’n flynyddol, a’r diffyg sicrwydd y gallai hyn ei gyflwyno.

Cododd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch y posibilrwydd o effeithiau negyddol ar lesiant ac iechyd meddwl y rhai sy’n ymwneud â saethu a rheoli anifeiliaid hela pe bai saethu’n cael ei gwtogi.

Crybwyllwyd canlyniadau anfwriadol posibl newid gan rai ymatebwyr fel pryder, yn benodol y byddai cyflwyno rheoleiddio yn peri gofid i berthnasoedd a grëwyd drwy flynyddoedd o gydweithredu.

Roedd rhai ymatebwyr a oedd yn cefnogi egwyddor rheoleiddio ychwanegol yn feirniadol o’r cynigion ar y sail nad oeddent yn ddigon cyfyngol. Er enghraifft, roedd rhai am weld rheolaethau llymach, gydag amodau llym a thrwyddedu unigol ar gyfer pob achos o ryddhau, tra oedd eraill yn galw am gofrestriad gorfodol ar gyfer pob digwyddiad saethu. Dywedodd eraill y dylai saethu gael ei wahardd yn llwyr am resymau moesegol.

## Barn CNC

Rydym yn derbyn y byddai’r cynigion yn golygu baich gweinyddol ychwanegol ar rai digwyddiadau saethu, er y byddai’r rhai sy’n dilyn canllawiau arferion da ac yn rhyddhau mewn ardaloedd llai sensitif yn gallu dibynnu ar y drwydded gyffredinol arfaethedig ac, yn ein barn ni, ni fyddai’n peri llawer o anghyfleustra iddynt. Bydd angen cydsyniad SoDdGA eisoes ar y rhai sy’n rhyddhau o fewn safleoedd gwarchodedig sensitif, felly nid ydym yn disgwyl y byddai trosglwyddo i drwyddedu adran 16 yn golygu cynnydd sylweddol yn y baich gweinyddol, er y gallai fod cynnydd tymor byr i’r rhai sydd â chydsyniadau tymor hwy y bydd angen iddynt wneud cais am drwydded.

Rydym yn derbyn y byddai digwyddiadau saethu sy’n rhyddhau o fewn y parthau clustogi o 500 metr, neu’r rhai sy’n rhyddhau mewn ffordd nad yw’n cydymffurfio â thelerau ac amodau’r drwydded gyffredinol, yn destun gofyniad newydd i wneud cais am drwydded benodol. Fodd bynnag, rydym yn ystyried hyn yn gymesur a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y broses ymgeisio mor llyfn a syml â phosibl.

Y cynnig y buom yn ymgynghori arno yw na fydd y rhan fwyaf o drwyddedau yn destun taliadau. Byddai’r drwydded gyffredinol ar gael yn ddi-dâl, ac rydym wedi cynnig, yn unol â’r dull o ymdrin â chydsyniadau SoDdGA yn ein Hadolygiad Strategol o Daliadau diweddar, na fyddem yn codi tâl am drwyddedau penodol sy’n ofynnol oherwydd eu hagosrwydd at SoDdGA yn unig ond sydd fel arall yn cydymffurfio â thelerau'r drwydded gyffredinol. Dim ond trwyddedau i ganiatáu rhyddhau sydd y tu hwnt i'r arferion da safonol o ran dwyseddau rhyddhau, neu nad ydynt fel arall yn cydymffurfio â'r drwydded gyffredinol arfaethedig, a fyddai'n destun tâl yn seiliedig ar adennill costau. Ymhellach, rhagwelwn fod unrhyw drwyddedau o'r fath yn fwy tebygol o gael eu ceisio gan ddigwyddiadau saethu mwy a weithredir yn fasnachol a fyddai'n fwy abl i dalu'r costau hynny.

Cyfeiriodd rhai ymatebion at absenoldeb hawl ffurfiol i apelio yn erbyn gwrthodiad neu osod amodau ar drwydded adran 16. Nodwyd ymhellach, pe byddai'r dull arfaethedig i bob pwrpas yn disodli cydsyniadau SoDdGA (y mae proses apelio ffurfiol ar ei gyfer) ar gyfer rhyddhau o fewn ffiniau SoDdGA, yna roedd llwybr presennol ar gyfer apêl ffurfiol yn cael ei gau. Cyfeiriodd rhai a gododd y pryderon hyn at bapur ymgynghori Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith bywyd gwyllt o 2012, a amlygodd ddiffyg proses apelio ffurfiol ar gyfer trwyddedau adran 16 fel maes posibl i’w ddiwygio.

Sylwn, yn ei adroddiad dilynol yn 2015, y daeth Comisiwn y Gyfraith i’r casgliad, at ei gilydd, nad oedd dadl ddigon cymhellol bod hawl i apelio o’r fath yn angenrheidiol. Fodd bynnag, rydym yn ystyried ei bod yn rhesymol disgwyl cael mecanwaith i herio penderfyniadau. Er y gallai ymgeiswyr ddefnyddio’r broses adolygiad barnwrol yn y pen draw i wneud hyn, byddem yn croesawu trafodaethau ynghylch a oes angen dewis arall mwy hygyrch.

Rydym wedi nodi’r pwyntiau a wnaed am yr angen i ddigwyddiadau saethu allu cynllunio dros amserlen hwy. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ychwanegu’r ddwy rywogaeth at Atodlen 9, byddwn yn edrych yn agosach ar yr opsiwn o drwyddedu aml-flwyddyn, ar gyfer y drwydded gyffredinol arfaethedig ac mewn ymateb i unrhyw geisiadau penodol am drwydded.

Er y bydd angen cael polisi cydymffurfio a gorfodi effeithiol ar waith, bydd hwn yn seiliedig ar risg ac yn gymesur. Byddwn yn datblygu’r agwedd hon ar y cynnig ymhellach os gwneir y penderfyniad i ychwanegu’r rhywogaethau at Atodlen 9.

Yn yr un modd â themâu yr aethpwyd i’r afael â nhw’n flaenorol, mae’n ymddangos bod rhai o’r pryderon a nodwyd o dan y thema hon yn ymwneud â’r canfyddiad bod saethu’n cael ei wahardd yng Nghymru, neu fod y cynigion hyn yn gam cyntaf i gyfyngu’n ddifrifol ar y gweithgaredd. Fel y dywedwyd yn flaenorol, nid oedd hyn yn rhan o'n hymgynghoriad ac nid yw'n cael ei gynnig.

I’r gwrthwyneb, mynegodd ymatebwyr eraill siom nad oedd y cynigion yn ddigon cyfyngol. Er bod rhai yn amlwg o'r farn y dylid gwahardd saethu anifeiliaid byw, roedd eraill yn derbyn y cynnig i reoleiddio ond yn feirniadol o elfennau penodol o'r dull arfaethedig. Er enghraifft, teimlai nifer o ymatebwyr y dylai pob achos o ryddhau yng Nghymru fod yn amodol ar drwyddedau unigol, neu o leiaf y dylid eu cofrestru, ac y byddai peidio â gwneud hynny yn golygu y byddai graddfa lawn yr achosion o ryddhau adar hela yn parhau i fod heb ei mesur.

Er y byddai rhai manteision i gael data ar yr holl achosion o ryddhau yng Nghymru, teimlwn ei bod yn hollbwysig ein bod yn cael mynediad uniongyrchol at wybodaeth fanwl am achosion risg uwch o ryddhau, megis y rhai sy’n agos at ardaloedd gwarchodedig a’r rhai nad ydynt yn cydymffurfio ag arferion gorau. O dan ein hymagwedd arfaethedig, byddai trwyddedu penodol yn rhoi'r wybodaeth hon i ni. Nid ydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i holl ddefnyddwyr y drwydded gyffredinol arfaethedig gofrestru. Rydym yn nodi bod y diwydiant saethu anifeiliaid hela wedi cydnabod yr angen i wella cydymffurfedd â’r gofrestr dofednod orfodol a gobeithiwn y bydd hyn yn rhoi darlun cyffredinol gwell o ryddhau adar hela yng Nghymru yn y dyfodol, heb fod angen ystyried yr hyn y gellid ei ystyried i gyflwyno system gofrestru ddyblyg o bosib.

## Thema 7: Safbwyntiau am fanteision rheoleiddio

### Sylwadau ymatebwyr

Mae'r thema hon yn ymdrin â safbwyntiau a oedd yn gyffredinol gefnogol i'r cynnig i reoleiddio achosion o ryddhau a'r manteision penodol a nodwyd o ddull o'r fath.

Teimlai nifer o ymatebwyr y byddai cyflwyno trwyddedu yn annog digwyddiadau saethu i ddilyn arferion gorau neu'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny. Teimlai eraill y byddai gofyniad am ffurflenni trwyddedu yn galluogi'r gwaith o fonitro nifer yr adar hela anfrodorol a ryddhawyd ac unrhyw effeithiau cysylltiedig. Teimlai eraill fod gan reoleiddio rôl i'w chwarae wrth leihau lledaeniad clefydau.

Teimlai rhai ymatebwyr fod angen lleihau nifer yr adar hela anfrodorol sy'n cael eu rhyddhau i'r gwyllt. Roedd y rhai a ymatebodd fel hyn yn teimlo'n gyffredinol y byddai cyflwyno rheoleiddio yn helpu i gyflawni hyn. Yn aml, cyfeiriwyd yn benodol at amcangyfrifon a adroddwyd yn eang (ac a oedd yn destun dadl) bod biomas adar hela a ryddhawyd ar adegau penodol o'r flwyddyn yn fwy na holl adar gwyllt eraill y DU sy'n magu.

Nodwyd y gallu i gymryd camau gorfodi os bydd achosion o dorri amodau ac i gyflwyno ffioedd ar gyfer monitro fel dwy fantais i'r cynnig.

Yn olaf, teimlai rhai y byddai cyflwyno'r system reoleiddio arfaethedig ar gyfer y gweithgaredd hwn yn darparu'r mecanwaith angenrheidiol i alluogi CNC a Llywodraeth Cymru i gyflawni eu cyfrifoldebau/dyletswyddau statudol o ran, er enghraifft, Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

### Barn CNC

Roedd y rhan fwyaf o'r safbwyntiau a nodwyd o dan y thema hon yn cytuno'n fras â'r rhesymeg a nodwyd yn ein hymgynghoriad. Fodd bynnag, mae rhai o'r themâu hyn yn awgrymu y gallai fod angen egluro rhai meysydd.

Nid bwriad y cynigion hyn o reidrwydd yw cymedroli cyfanswm yr adar hela a ryddheir yng Nghymru. Yn hytrach, y bwriad yw sicrhau bod achosion o ryddhau'n cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn dwyseddau a lleoliadau lle mae'r risg o niwed amgylcheddol yn cael ei lleihau.

Er ein bod yn cynnig adennill costau penderfynu ar geisiadau am drwyddedau lle eir y tu hwnt i'r canllawiau arferion da ar ddwysedd rhyddhau, rhagwelwn, o dan y cynnig yr ymgynghorwyd arno, na fyddai'r rhan fwyaf o achosion trwyddedig o ryddhau yn destun tâl. Byddai hyn naill ai oherwydd bod digwyddiadau saethu yn gallu gweithredu o dan drwydded gyffredinol neu oherwydd y polisi arfaethedig o beidio â chodi tâl am achosion o ryddhau sydd angen trwydded benodol dim ond oherwydd eu hagosrwydd at safle gwarchodedig sensitif. Os caiff y dull arfaethedig ei roi ar waith, byddwn yn rhoi system gymesur sy'n seiliedig ar risg ar waith o fonitro, cydymffurfio a gorfodi.

## Thema 8: Awgrymiadau penodol

### Sylwadau ymatebwyr

Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau penodol gan ymgyngoreion wrth ateb Cwestiwn 4. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Dylid trwyddedu digwyddiadau saethu ac ystadau saethu (yn hytrach na'r weithred o ryddhau yn unig) er mwyn annog a hyrwyddo arferion gorau yn ehangach ar draws y sector.
- Er y dylid trwyddedu digwyddiadau saethu mawr, nid oes angen trwyddedu digwyddiadau saethu llai.

- Dylai CNC gefnogi digwyddiadau saethu a reolir yn dda, neu hyd yn oed rhoi cymhorthdal iddynt, oherwydd y manteision y mae’r rhain yn eu rhoi i fywyd gwyllt, cymunedau gwledig, a’r cyhoedd.
- Dim ond adar sy’n cael eu magu ar safleoedd digwyddiadau saethu ddylai gael eu rhyddhau – yn hytrach na chael eu cludo i mewn o rywle arall yn y DU neu eu mewnforio.

## Barn CNC

Cefndir y gwaith hwn yw cais gan Weinidogion Cymru i ystyried opsiynau ar gyfer rheoleiddio’r gweithgaredd o ryddhau adar hela. Er i ni ystyried opsiynau fel trwyddedu ehangach ar gyfer digwyddiadau saethu eu hunain, roeddem yn teimlo bod defnyddio mecanwaith cyfreithiol sefydledig (sef rhestriad Atodlen 9 a system drwyddedu) yn rhoi gwell gwerth am arian a’i fod yn ymateb priodol a chymesur i’r cais gan Weinidogion Cymru. Mae’r dull hwn hefyd yn darparu rhywfaint o gysondeb â’r hyn a ddefnyddiwyd yn Lloegr, er ein bod yn ymwybodol bod y dull dros dro presennol yn Lloegr i fod i ddod i ben ar 30 Mai 2025 ac nid yw’n hysbys eto pa drefniadau fydd yn cael eu rhoi ar waith ar ôl y dyddiad hwnnw. Disgwylir adolygiad ôl-weithredu o'r dull dros dro hwnnw 12 mis cyn y dyddiad dod i ben.

Roedd rhai ymatebwyr yn bryderus, yn bennaf neu'n unig, am effaith digwyddiadau saethu masnachol mawr. Fodd bynnag, mae dadleuon wedi’u gwneud hefyd, ar yr amod bod y digwyddiadau saethu yn dilyn arferion da, bod buddion cadwraeth yn tueddu i gynyddu ynghyd â maint y digwyddiad saethu ac felly nad yw “mawr o reidrwydd yn golygu drwg”. Byddai'r dull arfaethedig presennol yn golygu y byddai angen i bob digwyddiad saethu ledled Cymru, waeth beth fo'i faint, weithredu yn unol â chanllawiau arferion da'r diwydiant oni bai eu bod wedi cytuno ar eithriad o dan drwydded benodol. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd yn fras â'r canllawiau arferion gorau hynny. Gofynasom gwestiwn yn ddiweddarach yn yr ymgynghoriad ynghylch y posibilrwydd o fabwysiadu dull ysgafnach ar gyfer digwyddiadau saethu bach a byddwn yn ystyried yr ymatebion i hyn, a chwestiynau eraill, os bydd angen inni roi dull trwyddedu ar waith.

Nid oedd yr awgrym mai dim ond adar a fagwyd ar safleoedd digwyddiadau saethu a ddylai gael eu rhyddhau yn thema a ailadroddwyd yn gyffredin. Tybiwn ei fod yn awgrym a fwriedir i leihau'r risg o drosglwyddo clefydau o gludo neu fewnforio adar. Gyda bioddiogelwch priodol a chadw at fesurau iechyd anifeiliaid, rydym o'r farn ei bod yn debygol y bydd modd rheoli'r risgiau hyn mewn modd llai cyfyngol.

Mae CNC eisoes yn cefnogi gweithgareddau cadwraeth a wneir gan ddigwyddiadau saethu, fel gyda rheolwyr tir eraill – er enghraifft, drwy gytundebau rheoli. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'r diwydiant yn ein rôl fel rheoleiddiwr i annog arferion cynaliadwy.

Bydd manylion llawn system drwyddedu yn cael eu datblygu os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9.

## Themâu sy'n codi o gwestiynau am y Gymraeg

### Sylwadau ymatebwyr

Gan fod llai o ymatebwyr wedi ateb y cwestiynau hyn ac oherwydd nad oedd yr ymatebion hynny'n aml yn ymwneud yn benodol â'r cwestiwn a ofynnwyd, gwnaethom nodi un set o themâu o bob un o'r pedwar cwestiwn.

Canolbwyntiodd rhai ymatebwyr ar y cyfleoedd i siarad Cymraeg a ddarperir gan saethu adar hela, gan gynnwys trwy ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu mewn sefyllfaoedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio, normaleiddio defnydd o'r Gymraeg, caniatáu i bobl fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, a bod yn fodd i'r di-Gymraeg (gan gynnwys ymwelwyr â Chymru) ddod i gysylltiad â'r iaith.

I'r gwrthwyneb, awgrymodd rhai ymatebwyr fod saethu'n denu'r di-Gymraeg yn bennaf, yn enwedig o Loegr, ac felly'n lleihau'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cododd rhai bryderon am yr effaith y gallai'r cynigion ei chael ar ddefnydd o'r Gymraeg drwy gau safleoedd saethu, gan leihau cyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith a gorfodi pobl i symud i rywle arall am waith. Teimlai eraill fod risg bod rhan bwysig o dreftadaeth ddiwylliannol cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith mewn perygl. Roedd y sylwadau hyn yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag ofnau bod saethu adar hela yn cael ei wahardd yng Nghymru ond roeddent hefyd yn gysylltiedig â phryderon ynghylch effaith economaidd bosibl rheoleiddio.

Dywedodd rhai ymatebwyr a atebodd y cwestiynau hyn, gan gynnwys ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu cyflwyno rheoleiddio, nad oedd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch effaith y cynigion ar y Gymraeg ac mai dewis yr unigolyn yw defnyddio'r Gymraeg ac y dylai barhau i fod fel hynny.

Roedd rhai ymatebion yn awgrymu ffyrdd o hybu'r Gymraeg. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach mewn ysgolion neu sefydliadau addysgol eraill, drwy fynd ati'n frwd i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymhlith y rhai sy'n mynychu digwyddiadau saethu, neu drwy ddiwgyddiadau saethu'n darparu deunydd darllen ac arwyddion yn ddwyieithog.

Defnyddiodd rhai ymatebwyr y cwestiynau hyn fel cyfle i feirniadu'r ymgynghoriad ei hun, i awgrymu bod cynnwys pedwar cwestiwn ymgynghori ynglŷn â'r Gymraeg yn anghymesur, neu i fynegi amheuaeth ynghylch y rhesymau dros ofyn y cwestiynau. Mynegodd rhai ymatebwyr farn negyddol am y Gymraeg a'i defnydd yn fwy cyffredinol.

Cwblhaodd rhai ymgyngoreion y cwestiynau ond nodwyd nad oedd ganddynt unrhyw bryderon am effaith y cynigion ar y Gymraeg neu mai dewis unigol yn unig oedd defnydd o'r Gymraeg.

### Barn CNC

Ymddengys fod llawer o'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith y cynigion ar ddefnydd o'r Gymraeg yn deillio o'r ofn y gallai ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris goesgoch at

Atodlen 9 i bob pwrpas arwain at waharddiad ar saethu adar hela sy’n cael eu rhyddhau yng Nghymru.

Mae saethu yn amlwg yn bwysig i lawer mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y byddai cyflwyno rheoleiddio cymesur yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg.

Er nad yw ein cynnig yn waharddiad ar ryddhau adar hela, gall fod risg y gallai’r canfyddiad, neu ofn gwaharddiad yn y dyfodol, fod yn ddigon i gymell rhai sy’n cymryd rhan mewn saethu adar hela, neu’n cael cyflogaeth ganddo, i symud i ffwrdd o gymunedau Cymraeg eu hiaith, gan arwain at ddirywiad yn nefnydd o’r Gymraeg mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, teimlwn fod pryderon o’r fath braidd yn ddyfaliadol, ac yn debygol o fod wedi’u meithrin gan naratif sydd wedi’i ddefnyddio yn y cyfryngau gan sefydliadau ac unigolion sy’n cynrychioli buddiannau saethu sy’n gwrthwynebu ein cynigion yn gryf. Credwn y dylid mynd i’r afael â phryderon o’r fath drwy gyfathrebu clir a chyson gan Lywodraeth Cymru ac CNC.

# Casgliad a chyngor i Lywodraeth Cymru

Wrth wneud y gwaith hwn, gofynnwyd inni ystyried a oedd problem yng Nghymru ac a oedd angen newid. Yn benodol, gofynnwyd inni roi cyngor ynghylch a ydym yn teimlo y dylid ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Atodlen 9 ac, os felly, ym mha ffordd y dylid eu hychwanegu.

Yn ein hadolygiad, canfuom dystiolaeth y gall rhyddhau adar hela beri risg o niwed amgylcheddol, yn enwedig pan fydd yn digwydd mewn lleoliadau sensitif neu mewn ffordd nad yw’n bodloni arferion da. Mae’n amlwg bod niferoedd sylweddol o adar hela yn cael eu rhyddhau yng Nghymru a bod crynodiadau arbennig o rydhhau mewn rhai ardaloedd. Mae hefyd yn amlwg bod rhyddhau'n digwydd yn agos at safleoedd gwarchodedig sensitif. Fodd bynnag, mae diffyg data dibynadwy yn golygu ei bod yn anodd bod yn hyderus ynghylch union raddfa neu natur yr achosion hynny o ryddhau a'u heffeithiau. Rydym yn ystyried y diffyg data hwn yn broblem sylweddol ynddo’i hun.

Ein barn ni yw bod mesurau rheoleiddiol a gwirfoddol presennol, er eu bod yn gwneud cyfraniad pwysig, yn annhebygol o fod yn ddigon i reoli'r risgiau hyn yn foddhaol. Yn bwysig ddigon, mae diffyg tystiolaeth ddibynadwy ynghylch i ba raddau y mae arferion da yn cael eu dilyn, a yw rheolaeth gadarnhaol yn cyd-fynd â rhyddhau, a graddfa a natur y rheolaeth honno. Rydym o'r farn ei bod yn debygol mai rheoleiddio yw'r unig ffordd effeithiol o wella'r sefyllfa hon a llywio rheolaeth yn y dyfodol yn well.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i’r rhannau perthnasol o’r ymgynghoriad yn awr, rydym yn parhau i fod o’r farn y dylid rheoleiddio rhyddhau’r rhywogaethau hyn yn fwriadol drwy drwyddedu cymesur sy'n seiliedig ar risg.

Rydym yn cydnabod bod gan rai rhanddeiliaid bryderon y gallai cyflwyno rheoleiddio gael effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol anfwriadol. Fodd bynnag, teimlwn fod y dull a nodir yn yr ymgynghoriad yn seiliedig ar risg ac yn gymesur ac y gellir rheoli unrhyw risgiau o'r fath. Yn bwysig, teimlwn fod y risgiau o wneud dim yn fwy na’r risgiau o weithredu.

Yn eu hymatebion i’r ymgynghoriad, mynegodd llawer o ymatebwyr ofn bod y newidiadau arfaethedig hyn yn gyfystyr â, neu’n rhagflaenydd, gwaharddiad llwyr ar saethu anifeiliaid hela yng Nghymru. Rydym wedi datgan yn gyson na ofynnwyd inni ystyried gwaharddiad ac nad dyna’r hyn yr ydym wedi’i gynnig. Fodd bynnag, mae rhai ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu y gallai'r canfyddiad hwn ynddo'i hun fod yn effeithio ar hyder a llesiant. Teimlwn fod angen sicrhau negeseuon clir a chyson a byddem yn annog rhanddeiliaid i wneud yr un peth.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, a’r ymatebion i’n hymgynghoriad diweddar, rydym yn cynghori Gweinidogion Cymru y dylid ychwanegu ffesantod cyffredin a phetris coesgoch at Ran 1 o Atodlen 9 i’r Ddeddf ac wedi hynny y dylai unrhyw achosion o ryddhau’r ddwy rywogaeth hyn yng Nghymru gael eu rheoli drwy fframwaith trwyddedu cymesur sy'n seiliedig ar risg.

Os gwneir y penderfyniad i ychwanegu’r rhywogaethau hyn at yr atodlen, byddwn wedyn yn symud ymlaen ac yn datblygu dull trwyddedu y teimlwn y gellir ei gyflawni’n effeithiol gyda’r adnoddau sydd ar gael. Byddai’r dull trwyddedu hwnnw’n cael ei gynllunio i ddod i rym ar gyfer tymor 2025/6, gyda manylion yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw i sicrhau bod gan ddigwyddiadau saethu amser rhesymol i wneud unrhyw drefniadau angenrheidiol.

# Atodiad 1 – Cwestiynau ymgynghori

1. Beth yw eich enw?
2. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?
3. Os ydych yn ymateb ar ran corff, dywedwch wrthym pa un os gwelwch yn dda.

**Cwestiynau cyffredinol**

4. A gytunwch y dylid ychwanegu ffesantod a phetris coesgoch at Ran 1 o Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yng Nghymru? Byddai'r newid hwn yn golygu y byddai angen rhyddhau'r rhywogaethau hynny yng Nghymru o dan drwydded. Rhowch resymau dros eich safbwyntiau.

5. Gan dybio bod y rhywogaethau hyn yn cael eu hychwanegu at Atodlen 9, rhowch eich barn i ni ar y dull trwyddedu arfaethedig. Rydym hefyd yn gofyn nifer o gwestiynau penodol isod.

**Cwestiynau penodol**

6. Rydym wedi seilio amodau’r drwydded gyffredinol arfaethedig ar gyfer rhyddhau ffesantod ar yr argymhellion yng nghanllawiau'r Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt ar gyfer rhyddhau adar hela yn gynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau'n cynnwys trothwyon dwysedd penodol ar gyfer petris coesgoch ac mae'n ymddangos bod llai o dystiolaeth i seilio amodau sy’n ymwneud â phetris arnynt. Rydym wedi defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael, a barn arbenigol, i gynnig amodau ar gyfer rhyddhau petris. Mae’r rhain naill ai’n seiliedig ar drothwy dwysedd sy’n gysylltiedig ag arwynebedd y cnwd gorchudd a ddarperir, neu ar ddwysedd yr hectar o'r gorlan ryddhau (fel yn achos ffesantod), yn dibynnu ar sut y caiff yr adar eu rhyddhau. Byddem yn croesawu barn ynghylch p’un a yw'r cynigion hyn yn briodol ac yn ymarferol ac a ellid eu gwella.

7. Mae canllawiau'r Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt yn cynnwys argymhelliad na ddylid defnyddio mwy na thraean o goetir â buddiant hela ar gyfer corlannau rhyddhau. Mae hyn er mwyn sicrhau bod coetir digonol yn parhau a all elwa ar weithgareddau rheoli cynefinoedd. Hoffem gynnwys yr argymhelliad hwn yn ein trwydded gyffredinol arfaethedig. Fodd bynnag, byddai'n well gennym allu diffinio'r hyn y gellir ei gynnwys yn y cyfrifiad. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gellid cyflawni hyn?

8. Ymddengys mai lleoliad a dwysedd yw'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar effaith amgylcheddol rhyddhau, ond rydym yn cydnabod bod rhyddhau llai o adar mewn ardaloedd llai sensitif yn debygol o achosi llai o risgiau. Gall fod yn briodol nad yw rhyddhau niferoedd bach o adar hela i ffwrdd o safleoedd gwarchodedig sensitif a’u clustogfeydd yn ddarostyngedig i’r un amodau trwydded gyffredinol ag sy’n

berthnasol i ryddhau niferoedd mwy. A ydych yn meddwl bod hyn yn rhywbeth y dylem ei ystyried? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

**Cwestiynau iaith Gymraeg**

9. A allai'r cynigion effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

10. A oes modd i ni gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg neu roi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? - Os oes, eglurwch yn y blwch isod

11. Oes yna unrhyw agweddau o'r cynigion a allai roi pobl dan anfantais wrth ddefnyddio'r Gymraeg? - Os oes, esboniwch yr effeithiau a sut y gellid eu lliniaru yn y blwch isod

12. Ydych chi'n credu bod y cynllun yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? - Os ydych, eglurwch yn y blwch isod

# Atodiad 2 – Dadansoddiad cadarnhau annibynnol

*Cynhaliwyd y dadansoddiad hwn gan y seicolegydd ymchwil annibynnol Naomi Marfell. Cymharodd y themâu a nodwyd yn ei dadansoddiad â’r rhai a nodwyd gan ymchwilwyr CNC wrth ystyried yr ymatebion i gwestiynau’r ymgynghoriad a ystyriwyd wrth ddatblygu’r cyngor hwn.*

## Cefndir

Mae dadansoddiad ansoddol gan ddefnyddio dadansoddiad thematig yn oddrychol, gan ddibynnu ar farn y gwerthuswyr/ymchwilydd mewn perthynas â'r themâu a'r syniadau a dynnwyd o'r data. Er mwyn lleihau rhagfarn bosibl a darparu cefnogaeth ar gyfer themâu sy'n dod i'r amlwg, cynhaliwyd dadansoddiadau thematig gan ddau ymchwilydd / tîm ymchwil gwahanol ar samplau o'r data ar gyfer pob cwestiwn cyn eu cymharu i ddarparu dadansoddiad cadarnhau. Er mwyn cynyddu nifer yr ymatebion a adolygwyd, cynhaliwyd y dadansoddiadau hyn ar hapsamplau ar wahân. Cynhaliwyd y dadansoddiadau gan ymchwilydd, neu dîm ymchwil, o CNC (dadansoddiad mewnol) a oedd yn gyfarwydd â phwnc yr ymchwil a chan ymchwilydd allanol/annibynnol (dadansoddiad allanol). Nod y dadansoddiad cadarnhau oedd pennu bod y samplau o 1,000 o ymatebion yn wir wedi cyrraedd y pwynt dirlawnder data a chymharu themâu mewn ymgais i leihau'r potensial ar gyfer rhagfarn gan ymchwilwyr.

## Dadansoddiad cadarnhau ar gyfer Cwestiwn 4

Cwestiwn 4 oedd y cwestiwn ansoddol cyntaf yn yr ymgynghoriad a gofynnodd:

*“A gytunwch y dylid ychwanegu ffesantod a phetris coesgoch at Ran 1 o Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yng Nghymru?”*

Nododd y dadansoddiad mewnol bedair prif thema:


- Herio'r angen/cyfiawnhad am reoleiddio
- Pryder ynghylch effaith rheoleiddio
- Amau'r llywodraeth
- Cefnogi'r angen am reoleiddio ychwanegol

Nododd y dadansoddiad allanol wyth thema:

- Manteision saethu
- Manteision y cynnig
- Pryderon ynghylch y cynnig
- System gyfredol
- Amgylcheddol
- Tystiolaeth
- Gwleidyddol
- Awgrymiadau

Yn gyffredinol, roedd yr ymchwilydd allanol yn tueddu i nodi nifer uwch o themâu penodol tra oedd y dadansoddiadau gan y tîm mewnol yn darparu llai o themâu ac roedd y rhai'n fwy cyffredinol. Fodd bynnag, roedd meysydd cyffredin yn y themâu, gyda'r ddau ddadansoddiad yn nodi materion yn ymwneud ag agweddau gwleidyddol yr ymgynghoriad a diffyg ymddiriedaeth ymatebwyr o'r llywodraeth, CNC a'r ymgynghoriad ei hun. Roedd themâu cyffredin eraill a ddaeth i'r amlwg yn ymwneud â chwestiynu'r dystiolaeth a oedd yn cefnogi'r angen am reoleiddio pellach, effaith y cynnig, a chefnogaeth neu ddiffyg cefnogaeth yr ymatebwyr i'r cynnig a awgrymwyd.

Gan edrych ar benawdau'r brif themâu, mae'r diagram canlynol yn amlygu'r cydadwaith rhwng y themâu a nodwyd yn y ddau ddadansoddiad:




Mae'r gymhariaeth hon yn amlygu, er bod gwahaniaethau wrth grwpio is-themâu yn themâu yn y ddau ddadansoddiad, o ran y syniadau cyffredinol sy'n deillio o'r data, y daeth syniadau tebyg i'r amlwg o'r ddau ddadansoddiad o'r ddau hapsampl.

Mae archwiliad agosach o'r syniadau o fewn yr is-themâu mewnol yn erbyn y syniadau o'r is-themâu allanol yn dangos tebygrwydd rhwng y ddwy set o is-themâu, fel y dangosir isod:

| Dadansoddiad allanol – thema | Dadansoddiad allanol – is-thema | Dadansoddiad mewnol – is-thema |
|---|---|---|
| Gwleidyddol | Agenda wleidyddol | Sylwadau cyffredinol yn gwrthwynebu rheoleiddio |
| | Amau Llywodraeth Cymru ac CNC | Y bwriad yw gwahardd |

| | | |
|---|---|---|
| | Ymosod ar gefn gwlad | Ymyrraeth gan lunwyr polisi trefol |
| | Beirniadaeth o’r ymgynghoriad | Sylwadau cyffredinol yn gwrthwynebu rheoleiddio |
| | Torri hawliau | Effaith rheoleiddio ar yr amgylchedd |
| | Drwgdybiaeth gan y gymuned saethu | |
| Tystiolaeth | Datgan tystiolaeth | Cwestiynu'r dystiolaeth |
| | Angen mwy o dystiolaeth | |
| Manteision saethu | Economaidd | Effaith rheoleiddio ar ddigwyddiadau saethu a'r economi |
| | Cymuned | |
| | Personol | |
| | Cadwraeth/amgylcheddol | Effaith rheoleiddio ar yr amgylchedd |
| | Cig maes | |
| System gyfredol | Mae mesurau diogelu ar waith | Herio'r angen – rheolaethau digonol eisoes |
| | Dim angen newid | Rheolaethau digonol eisoes |
| | Hunanreoleiddio | Rheolaethau digonol eisoes |
| | Ciperiaid sydd yn y sefyllfa orau ar gyfer penderfyniadau a chadwraeth | |
| | Safbwyntiau’r gymuned saethu | Yn galw am waharddiad |
| | Traddodiad/diwylliant hirsefydlog | Ymyrraeth gan lunwyr polisi trefol |
| | Dim rheoleiddio ar hyn o bryd | Sylwadau cyffredinol o blaid mwy o reoleiddio |
| Amgylcheddol | Ddim yn niweidiol | Cwestiynu'r dystiolaeth |
| | Andwyol | Effeithiau ar yr amgylchedd |
| Pryderon ynghylch y cynnig | Biwrocratiaeth | Effaith ar adnoddau cyhoeddus |
| | Costau | Effaith ar ddigwyddiadau saethu a'r economi |
| | Gorfodi | Effaith ar adnoddau cyhoeddus |
| | Ehangu anghydraddoldebau | |
| | Arwain at waharddiad | Y bwriad yw gwahardd |
| | Cau digwyddiadau saethu | Y bwriad yw gwahardd |
| Manteision y cynnig | Rheoli clefydau | Yr effaith ar yr amgylchedd |
| | Darparu rheolau / arferion gorau / trwyddedau sy'n seiliedig ar dystiolaeth | Sylwadau o blaidd |
| | Cyfyngu ar niferoedd a saethwyd | Mae graddfa rhyddhau yn golygu bod angen rheoleiddio |
| | Rheoleiddio toriadau | Sylwadau o blaid |
| | Ffioedd ar gyfer monitro | |
| Awgrymiadau | Angen trwyddedau ar gyfer ystadau neu fusnesau | Effaith rheoleiddio ar ddigwyddiadau saethu a'r economi |

| | | |
|---|---|---|
| | Dylid trwyddedu digwyddiadau saethu mawr | Effaith rheoleiddio ar ddigwyddiadau saethu a'r economi |
| | Opsiwn gorau cynnig Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain | |
| | Dylai CNC roi cymhorthdal i ddigwyddiadau saethu | |
| | Dim ond adar sy'n cael eu magu ar ddigwyddiadau saethu ddylai gael eu saethu | |

O'r 38 o is-themâu a nodwyd gan y dadansoddiad allanol, mapiwyd 30 ar themâu'r dadansoddiad mewnol, gan roi rhywfaint o gefnogaeth i ddilysrwydd y dadansoddiad.

Nid oedd yn ymddangos bod wyth o'r is-themâu a nodwyd gan yr ymchwilydd allanol wedi'u cynnwys yn yr is-themâu o'r dadansoddiad mewnol. Gall hyn fod oherwydd natur fwy cyffredinol themâu'r dadansoddiad mewnol o gymharu â themâu'r ymchwilydd allanol, sy'n golygu nad oedd rhai o'r themâu mwy penodol a amlygwyd gan yr ymchwilydd allanol (e.e. cig maes, CNC yn rhoi cymhorthdal ar gyfer digwyddiadau saethu) wedi'u nodi gan y tîm mewnol.

Wrth edrych ar y dadansoddiad allanol mwy penodol a'i gymharu â'r dadansoddiad mewnol, ni ddaeth unrhyw syniadau newydd i'r amlwg o'r dadansoddiad mewnol, a oedd yn cefnogi'r syniad bod dirlawnder yn ôl pob tebyg wedi'i fodloni yn y dadansoddiad thematig allanol.

## Dadansoddiad cadarnhau ar gyfer y cwestiynau Cymraeg

Cafodd pedwar cwestiwn ar y Gymraeg eu cynnwys yn yr ymgynghoriad. Oherwydd natur a nifer yr ymatebion, ystyriwyd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn fel set at ddibenion dadansoddi.

Arweiniodd y dadansoddiad mewnol at bum thema fel a ganlyn:

- Mynegi pryderon ynghylch effeithiau ar gymunedau gwledig
- Mynegi safbwyntiau negyddol am y Gymraeg
- Mynegi pryder am ddiwylliant a threftadaeth Cymru
- Mynegi dim effeithiau ar y Gymraeg
- Mynegi diffyg gwybodaeth am y pwnc er mwyn gallu rhoi sylwadau


Arweiniodd y dadansoddiad allanol at saith thema fel a ganlyn:

- Cyfleoedd i siarad Cymraeg
- Effaith cynigion ar ddefnydd o'r Gymraeg
- Hyrwyddo'r Gymraeg
- Safbwyntiau ar yr ymgynghoriad ehangach
- Beirniadaeth o'r ymgynghoriad
- Dim pryderon

- Dim barn

Yn gyffredinol, byddai’r cyffredinedd rhwng y dadansoddiadau’n awgrymu prif themâu ynghylch safbwyntiau bod saethu yn darparu cyfleoedd ar gyfer defnyddio’r Gymraeg ac, o ystyried hyn, y gallai unrhyw gynnig a allai effeithio ar saethu / y gymuned saethu gael effaith ar ddefnydd o’r Gymraeg. Yn ogystal, daeth thema feirniadol sylweddol i’r amlwg mewn perthynas ag ychwanegu’r cwestiynau ar y Gymraeg o fewn yr ymgynghoriad.

Gan edrych ar y prif benawdau thema o’r ddau ddadansoddiad, mae’r diagram canlynol yn amlygu’r cydadwaith rhwng y themâu a nodwyd yn y ddau ddadansoddiad:




Canfuwyd syniadau y tu ôl i bron bob un o’r themâu yn y dadansoddiadau mewnol ac allanol ac eithrio’r thema safbwyntiau ar yr ymgynghoriad ehangach, a nodwyd gan y dadansoddiad allanol. Roedd y thema hon yn cynnwys sylwadau gan ymatebwyr nad oeddent yn ateb y cwestiynau’n ymwneud â’r Gymraeg yn benodol ond yn hytrach roedd ymatebwyr yn manteisio ar y cyfle i ailadrodd rhai o’u safbwyntiau ynghylch yr ymgynghoriad ehangach. Nid ymddangosodd unrhyw syniadau newydd o fewn y safbwyntiau hyn na chawsant eu hamlygu yn y dadansoddiad o gwestiynau eraill o fewn yr ymgynghoriad ac felly mae’n bosibl bod yr adolygiad mewnol wedi penderfynu peidio â chynnwys yr ymatebion hyn yn y dadansoddiad ar gyfer y cwestiynau ar y Gymraeg.

Mae'r cyffredinedd rhwng y themâu eraill yn awgrymu efallai bod dirlawnder wedi'i gyrraedd ac yn rhoi rhywfaint o ddilysrwydd i'r themâu a ddaeth i'r amlwg.

Mae archwiliad agosach o'r syniadau o fewn yr is-themâu mewnol yn erbyn y syniadau o'r is-themâu allanol yn dangos tebygrwydd rhwng y ddwy set o is-themâu, fel y dangosir isod:

| Ymchwilydd allanol – thema | Ymchwilydd allanol – is-thema | Ymchwilydd CNC – is-thema |
|---|---|---|
| **Cyfleoedd** | Twristiaeth | Effaith ar fusnesau lleol |
| | Cymdeithasu | Gostyngiad mewn rhyngweithio cymdeithasol |
| | Normaleiddio | Gostyngiad mewn rhyngweithio cymdeithasol |
| | Mwy o gyfleoedd | Diffyg amlygiad / cyfleoedd eraill |
| | Mae digwyddiadau saethu yn lleihau cyfleoedd | Dim effaith (Saesneg yw iaith digwyddiadau saethu yn bennaf) |
| **Effaith** | Economaidd | Effaith ar fusnesau lleol |
| | Bygythiadau i fywoliaethau | Colli swyddi / dadleoli |
| | Treftadaeth | Erydu traddodiadau |
| **Hyrwyddo'r Gymraeg** | Addysg | |
| | Hysbysebu Cymraeg i saethwyr | |
| | Deunydd darllen ac arwyddion | Canllawiau dwyieithog |
| **Safbwyntiau ar yr ymgynghoriad ehangach** | Data | |
| | Cadwraeth yng Nghymru | |
| **Beirniadaeth** | Beirniadaeth o’r ymgynghoriad | Mae’r cwestiynau’n nonsens / ddim yn berthnasol |
| | Amheuaeth o’r rhesymau dros ofyn | Mae’r cwestiynau’n nonsens / ddim yn berthnasol |
| | Dewis unigol | Hyrwyddo'r Gymraeg uwchlaw'r Saesneg |
| | Safbwyntiau negyddol ar y Gymraeg | Hyrwyddo'r Gymraeg uwchlaw'r Saesneg |
| **Dim pryder / dim barn** | | Dim effaith |
| | | Dim digon o wybodaeth |

Cafodd pob un o'r is-themâu a nodwyd drwy'r dadansoddiad allanol hefyd eu nodi drwy'r dadansoddiad mewnol ac eithrio'r ddwy is-thema o amgylch y ‘safbwyntiau ar yr ymgynghoriad ehangach’ a hefyd dwy is-thema sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg. Daeth y ddwy is-thema hyn i’r amlwg yn fwy o’r cwestiynau ynghylch sut y gellid hybu defnydd o’r Gymraeg ac roeddent yn cynnwys yr awgrymiadau y gellid hybu’r Gymraeg drwy addysg (naill ai drwy’r system addysg ysgol neu drwy ddarparu cyfleoedd addysg/dysgu i bobl ddysgu Cymraeg) a hefyd y thema y gallai'r Gymraeg gael ei hyrwyddo'n frwd i bobl sy'n mynychu digwyddiadau saethu.

## Casgliadau

Mae dadansoddiad cadarnhau o’r themâu a’r is-themâu ar gyfer Cwestiwn 4 a chwestiynau’r Gymraeg yn awgrymu, er y gallai fod rhai gwahaniaethau rhwng y derminoleg a ddefnyddiwyd i enwi’r themâu a’r ffordd y rhannwyd y themâu, y daeth syniadau tebyg iawn i’r amlwg o’r dadansoddiadau a gynhaliwyd gan yr ymchwilwyr mewnol ac allanol ar gyfer y ddau gwestiwn, gan roi rhywfaint o ddilysrwydd i'r themâu a nodwyd ac awgrymu ei bod yn debygol bod y penderfyniad i ddadansoddi 1,000 o ymatebion a ddewiswyd ar hap wedi rhoi lefel ddigonol o ddirlawnder yn y data.

Roedd nifer fechan o wahaniaethau o fewn y lefel is-thema o ddadansoddi a allai fod oherwydd yr is-themâu mwy penodol a nodwyd gan yr ymchwilydd allanol o gymharu â'r duedd i'r themâu mewnol fod yn fwy cyffredinol eu natur.

<u>Naomi Marfell, Hydref 2023</u>